CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL.

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 6ed o Dachwedd 2018 yn Yr Hen Ysgol

Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol

Cadeirydd: Llinos Davies

Cynghorwyr: Enid Cole, Sarah-Jane Absalom, Lon Davies. Ceirwyn John, Robin Phillips, Ieuan Davies, Arwel Evans

Cynghorydd Sir: Cyng. Cris Tomos

Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd:

Croesawodd y cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Ymddiheiriadau:- Pawb yn Presennol

Cofnodion - 03.10.2018

Cynigodd Lon Davies ac eiliodd Sarah-Jane Absalom fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion

68. Traffic Pontsaeson – Cadarnhaodd y Cyng. Cris Tomos bod Cyngor Sir Benfro wedi cymeryd mesuriadau ac yn y blaen.

Gohebiaeth

69. Cyfanswm yn y Banc 25.10.18 - £ 3,534.48

70. Cyngor Sir Benfro Cais cynllunio Mr. D. W. Bowen, Pengelli, Eglwyswrw – Cais ar gyfer estyniad I adeilad amaethyddol. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais.

71. Cyngor Sir Benfro Cais cynllunio – Butchers Arms – Cais ar gyfer newid defnydd ac estyniad ar gyfer 2 tŷ. Roedd pryder gan y Cynghorwyr ynglyn ar cais yma gan fod y cais wedi ei wrthod yn y gorffenol. Helen I ysgrifennu llythyr I cyngor Sir Benfro yn rhestri pryder y Cynghorwyr.

72. Anfoneb wrth Rhydwyn Davies ar gyfer gwaith ar y goleuadau yn yr Eglwys £288.00 – Cynigodd Ceirwyn John ac eiliodd Arwel Evans i'r Cyngor Cymuned dalu.

73. GIG Cymru – Gwybodaeth ar gyfer rhif ffôn 111 newydd. Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb a hefyd fe fydd yn yr hysbysfwrdd.

74. Digwyddiad ar gyfer Cefnogi Dementia yn y Gymuned – Digwyddiad Dydd Mawrth 13ed o Dachwedd 2018 o 10 – 4 Canolfan Hermon. Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb.

Unrhyw Fater Arall

75. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - Mr. L. Morris Cornel Fach, Ffynnongroes – Cais ar gyfer amrywio amod I ganiatau caniatad dros dro ar gyfer carafan I gael ei ymestyn tan Chwefror 2021. Cais wedi ei dderbyn.

76. Llythyr wrth Ysgol Eglwyswrw – Llythyr o ddiolch am y cyfraniad ar gyfer helpu gyda costau Eisteddfod.

77. Llythyr wrth Will Thomas – Llythyr ynglyn ar Sedd Goffa. Trwy rhoddion hael wrth sefyliadau ac unigolion mae'r sedd Goffa wedi bod yn llwyddianus.

78. Ebost wrth Robert Smith – Gwasanaeth y Cofio dydd Sul 11eg o Dachwedd am 10.30 yb. Fe fydd y Cyng. Llinos Davies yn gosod y torch ar rhan y Cyngor Cymuned.

79. Ebost wrth Mandy Phillips ar rhan Pwyllgor yr Hen Ysgol – Dosbarthwyd rota ynglyn a pob sefydliad sydd yn defnyddio yr Hen Ysgol I glanhau yn ei tro. Yn dilyn trafodaeth nid oedd y Cynghorwyr yn hapus gyda'r syniad yma. Cynigodd Lon Davies ac eiliodd Arwel Evans I pob sefydliad I ddalu mwy o rhent a cael glanhawyr I mewn. Fe fyddwn yn edrych ar y sefyllfa yma yn y cyfarfod nesaf.

80. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Llwyncelyn, Eglwyswrw – Cais ar gyfer porch ar gyfer blaen y tŷ. (Retrospective). Roedd pawb yn hapus gyda'r cais.

81. Fe ddaeth Cyng Enid Cole a gwybodaeth a cyfrifon wrth Cyfeillion Ysbyty Aberteifi er mwyn I pawb ei gweld.

82. Cododd Cyng. Lon Davies ynglyn a dŵr ar y rhewl o Ffynnongroes tuag at Pont y Cwm. Cyng Cris Tomos yn mynd I edrych ar y sefyllfa.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 4ydd o Rhagfyr am 8.00y.h.

Terfynwyd y Cyfarfod am 9.35y.h.